



ADRODDIADAU ARHOLWYR TGAU

**TGAU
DAEARYDDIAETH**

HAF 2019

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Uned	Tudalen
3110N10-1 Tirweddau Ffisegol a Dynol Newidiol	1
3110N20-1 Materion Amgylcheddol a Datblygiad	5
3110N30-1 Ymholiad Gwaith Maes	8

DAEARYDDIAETH

TGAU

Haf 2019

3110N10-1 TIRWEDDAU FFISEGOL A DYNOL NEWIDIOL

Sylwadau Cyffredinol

Ar y cyfan, roedd perfformiad yr ymgeiswyr yn Uned 1 2019 yn eithaf tebyg i 2018, ac roedd marc cymedrig 2019 ychydig bach yn is na'r flwyddyn flaenorol. Roedd y gostyngiad bach hwn yn bennaf oherwydd perfformiad siomedig yn y ddwy eitem estynedig yng nghwestiwn 1; profodd y ddwy eitem hyn yn sialens go iawn i'r mwyafrif o'r ymgeiswyr. Roedd un o'r rhain yn ymwneud ag AA2, sy'n parhau i fod y prif wahaniaethydd rhwng yr ymgeiswyr mwy a llai llwyddiannus ond roedd yr ail, yn siomedig, yn AA1.2 ac yn deillio o fethiant ymgeiswyr i ddarllen gofynion y cwestiwn ac ymateb yn ddigon gofalus a phenodol iddynt. Er gwaethaf hyn, roedd gwelliant calonogol oddi ar 2018 o ran ymateb ymgeiswyr i'r gorchymyn 'gwerthuswch' sy'n dangos rhywfaint o gynnydd o ran dealltwriaeth ymgeiswyr o elfennau AA2.

Roedd yr arholiad yn canolbwyntio ar amrywiaeth o wahanol feysydd cynnwys manyleb 2018 ac nid oedd gwahaniaeth amlwg nac arwyddocaol o ran hygyrchedd i ymgeiswyr; roedd yn ymddangos bod y rhan fwyaf ohonynt yr un mor gyfforddus â chynnwys y pwnc yn gyffredinol ag yn y flwyddyn flaenorol. Fel yn 2018, roedd rhaniad tua 60:40 o blaid ymgeiswyr yn ymateb i Thema 3 (Tectoneg) o gymharu â Thema 4 (Peryglon Arfordirol).

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

AA1.1 – Arddangos gwybodaeth

Roedd yr eitemau yn yr arholiad a oedd yn profi gwybodaeth ymgeiswyr a'u gallu i adalw gwybodaeth (AA1.1) yn hygyrch i'r rhan fwyaf, ond roeddent hefyd yn wahaniaethwyr da gan fod y ffactorau hygyrchedd yn amrywio o lai na 0.5 i tua 0.8. Yng nghwestiwn 1a(iv), roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth sylfaenol o leiaf am broses drifft y glannau ac roedd llawer yn defnyddio geiriau allweddol fel torddwr a thynddwr yn eu disgrifiadau. Roedd yr ymgeiswyr a oedd yn gallu ennill y trydydd marc yn rhoi disgrifiad manwl a chywir yn cysylltu'r ddwy elfen hyn ar y broses â'u cyfeiriadau cymharol a'r prifwyntoedd i gludo defnyddiau ar hyd yr arfordir. Yng nghwestiwn 2b(ii), roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gallu nodi'n gywir pa ffactorau tynnu perthnasol sy'n denu pobl at ddinasoedd global ond, mewn llawer o achosion, methwyd â datblygu'r atebion hyn â digon o fanylder sy'n benodol i ddinasoedd global i ennill yr holl farciau a oedd ar gael.

Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wybodaeth dda am safleoedd tir llwyd yng nghwestiwn 2c(i) ac roeddent yn gallu eu diffinio fel safleoedd lle'r oedd rhywbeth wedi'i adeiladu o'r blaen, ond ni wnaeth llawer ddatblygu hyn yn ddigon manwl i ennill yr ail farc a oedd ar gael drwy ychwanegu enghraifft neu ail bwynt disgrifiadol. Mae angen i ymgeiswyr edrych yn fwy gofalus ar y tariff marciau ar gyfer cwestiynau unigol a sicrhau eu bod yn gwneud y nifer gofynnol o bwyntiau i ennill nifer y marciau sydd ar gael. Yn yr achos hwn, roedd unrhyw ddatblygiad ar y diffiniad sylfaenol – i roi enghraifft o le, math o ddefnydd tir neu gydnabyddiaeth bod safleoedd o'r fath yn aml yn adfail – yn ennill ail farc.

AA1.2 – Dangos dealltwriaeth ddaearyddol

Â ffactor hygrychedd o 0.29, yr eitem a roddodd y sialens fwyaf o'r papur i gyd i'r ymgeiswyr oedd cwestiwn 1c(iii) lle roedd gofyn iddynt esbonio pam mae defnyddiau tir gwahanol yn gallu effeithio ar siâp hydrograff. Mae hyn yn amlwg yn brawf o ddealltwriaeth ymgeiswyr o gysyniadau a chydberthynas (AA1.2) ac roedd yn glir bod llawer iawn yn deall bod y defnydd o'r tir yn effeithio ar lifoedd a storfeydd dŵr glaw yn y dalgylch afon; dylai hynny fod wedi gwneud y cwestiwn yn llawer mwy hygrych nag yr oedd yn y pen draw. Roedd llawer o atebion wedi'u hysgrifennu'n dda iawn yn ymwneud ag athreiddedd arwynebau ar dir fferm a sut mae llystyfiant yn gallu dal ac arafu dŵr sy'n llifo i mewn i afonydd o gymharu â'r cynnydd mewn llif trostir mewn ardaloedd trefol llai athraidd, sy'n dangos dealltwriaeth gysyniadol dda. Fodd bynnag, cysylltodd llawer o ymgeiswyr hyn â'r siawns o lifogydd heb esbonio wedyn, fel roedd y cwestiwn yn ei ofyn, pam roedd hyn yn effeithio ar siâp yr hydrograff. Roedd y rhai a lwyddodd i gyrraedd band uchaf y cynllun marcio yn cysylltu esboniad manwl o'r cydberthnasoedd uchod â chysyniad siâp yr hydrograff a pha mor serth yw'r rhannau sy'n codi ac yn encilio a/neu hyd yr oediad amser rhwng y glawiad mwyaf a'r llif mwyaf. Y methiant cyson gan ymgeiswyr i sefydlu'r cysylltiad hwn a gyfrannodd at farc cymedrig a oedd yn gyfforddus o fewn band isaf y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn hwn.

Roedd cwestiynau 2b(iii) a 2c(ii) hefyd yn profi dealltwriaeth yr ymgeiswyr o dan AA1.2 ac yn y ddau gwestiwn, er bod y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gyfarwydd â chynnwys y pwnc sef parciau adwerthu y tu allan i'r dref a safleoedd tir llwyd yn ôl eu trefn, nid oedd llawer wedi rhesymu'n ddigon manwl i allu ennill marciau llawn. Wrth asesu pam gallai pobl ddewis siopa y tu allan i'r dref yn hytrach nag mewn canolfannau trefol, roedd llawer yn gwneud datganiadau eithaf diafael a oedd yn aml yn anghywir ynglŷn â bod cynhyrchion yn rhatach a mwy o ddewis o siopau mewn parciau adwerthu, yn hytrach nag esbonio'n fanwl y rhesymau pam mae llai o dagfeydd, gwell parcio a gwell ansawdd amgylchedd siopa o gymharu â chanol rhai trefi. Yn yr un modd, roedd yr ymgeiswyr a oedd yn gallu rhoi rhesymau manylach yn cael eu gwobrwyo am esbonio pam roedd datblygu safleoedd tir llwyd yn gwella ardaloedd a oedd yn arfer bod yn adfeilion hyll a pham gallai'r safleoedd hyn fod yn well am eu bod eisoes yn cynnwys rhai elfennau isadeiledd. Fodd bynnag, syrthiodd llawer i'r trap o ailadrodd eu diffiniad o safle tir llwyd yn hytrach na chynnig rhesymau manwl y tu hwnt i fuddion amgylcheddol adeiladu ar y rhain yn hytrach nag ar safleoedd tir glas.

Ar y cyfan, roedd yr atebion o dan AA1.2 yn dda ar gyfer themâu 3 a 4 ac roedd llawer o ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o'r prosesau sydd ar waith wrth ffurfio ffosydd cefnforol yng nghwestiwn 3a(iv). Dewisodd y mwyafrif ddefnyddio diagram i ddangos hyn ac er nad oedd hyn yn orfodol, roedd yn glir bod defnyddio diagram wedi eu helpu i esbonio tirffurf ac mae'n glir bod darparu'r opsiwn hwn i ymgeiswyr wrth ddisgrifio ac esbonio tirffurfiau o gymorth mawr iddynt wrth drefnu eu hateb. Dylid nodi, fodd bynnag, bod rhai ymgeiswyr wedi dewis peidio â chynnwys diagram a'u bod wedi gallu ennill marciau llawn beth bynnag drwy roi ymateb rhyddiaith wedi'i lunio'n dda. Roedd dealltwriaeth gyffredinol dda hefyd, fel y dangoswyd gan ffactor hygrychedd o 0.55 ar gyfer cwestiwn 4a(iv), o'r rhesymau pam mae ynys-wladwriaethau bach yn fwy agored i niwed gan lefelau'r môr yn codi, a llawer o ymgeiswyr yn seilio eu hesboniad ar y dopograffeg isel neu'r diffyg datblygiad economaidd sy'n lleihau gwydnwch poblogaethau.

AA2 – Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth (AA2) yn dal i fod yn her i ymgeiswyr ond teimlwyd, yn gyffredinol, bod gwelliant bach yn hyn o beth oddi ar 2018. Yn benodol, roedd gallu'r ymgeiswyr i werthuso strategaethau i reoli daeargrynfeydd a pheryglon arfordirol yng nghwestiynau 3(c) a 4(c) yn ôl eu trefn yn dda ar y cyfan, ac roedd y mwyafrif wedi gwneud ymdrech wirioneddol i drafod manteision ac anfanteision gwahanol strategaethau neu i gymharu un neu fwy o strategaethau â'i gilydd. Roedd hyn yn arbennig o wir am thema 4 ac ysgrifennodd llawer o ymgeiswyr atebion hir am rinweddau neu fel arall amrywiaeth o strategaethau peirianeg galed a meddal a oedd yn aml yn mynd yn llawer pellach na chyfeirio'n syml at gost gymharol gwahanol strategaethau. Gallai mbell un ystyried materion yn ymwneud â chynaliadwyedd peirianeg galed i'r dyfodol yng ngoleuni'r cynnydd yn nwysedd stormydd arfordirol o ganlyniad i newid hinsawdd. Roedd ansawdd yr ymatebion ar gyfer strategaethau daeargryn ychydig yn is na'r rhai ar gyfer peryglon arfordirol, a dangosir hyn gan ffactor hygyrchedd o 0.42 o gymharu â 0.49. Roedd hyn yn aml oherwydd bod ymgeiswyr yn aml yn dewis disgrifio'r wybodaeth yn yr adnodd yn unig, yn hytrach na gwerthuso y tu hwnt i gostau cymharol gwahanol fesurau. Fodd bynnag, roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu trafod dichonoldeb peirianeg galed ar gyfer gwledydd incwm isel (LICs) sy'n dueddol o brofi daeargrynfeydd o gymharu â gwledydd incwm uchel (HICs), a chyfeiriodd ambell un at gyfyngiadau peirianeg galed mewn digwyddiadau â maint mawr iawn.

Roedd y gofyniad AA2 i ymgeiswyr wneud penderfyniad neu ddyfarniad yn cael ei archwilio yng nghwestiwn 2c(iii). Llwyddodd yr ymgeiswyr mwyafrif galluog i ddadansoddi'r adnoddau mewn perthynas â thai cynaliadwy i ddangos sut roedd y blociau fflatiau wedi gwella ansawdd amgylchedd adeiledig Dociau Bryste. Roeddent yna'n gwrthddadlau hyn drwy awgrymu bod hyn yn enghraifft o foneddigeiddio ac nad yw tai modern yn fforddiadwy i drigolion lleol a bod hynny'n effeithio ar gydlynid cymunedol gan fod trigolion mwy cyfoethog ac efallai perchenogion ail gartrefi'n cael eu denu i'w prynu. Fodd bynnag, er bod y mwyafrif helaeth yn ceisio llunio barn ynglŷn ag a oeddent yn teimlo bod Dociau Bryste wedi datblygu mewn modd cynaliadwy ai peidio, roedd y farn hon yn aml yn rhy syml ac yn seiliedig ar ddisgrifiad, yn hytrach na dadansoddiad gwrthrychol o'r adnoddau mewn perthynas ag Olwyn Egan ac ychydig o'r ymatebion a ddisgrifiwyd uchod a gafwyd, er bod rhaid cyfaddef bod y cwestiwn yn un heriol. Roedd y cwestiwn hwn hefyd yn gwahodd yr ymgeiswyr i ddefnyddio tystiolaeth ychwanegol i ategu eu barn ac roedd hyn yn rhoi cyfle iddynt ddefnyddio deunydd o fannau eraill y gallent fod wedi'u hastudio a'i gymhwyso at Olwyn Egan, naill ai i atgyfnerthu pwyntiau a wnaethpwyd eisoes am Fryste neu i ddarparu tystiolaeth y gellid ei chymhwyso at y segmentau o'r olwyn nad oeddent yn amlwg i'w gweld yn yr adnoddau ar Fryste. Roedd y gorchymyn yn y cwestiwn yn gofyn i'r ymgeiswyr ystyried mannau 'fel' Bryste a theimlwyd y byddai hyn wedi rhoi cyfle i'r ymgeiswyr i ehangu eu hatebion drwy ddefnyddio deunydd yr oeddent wedi'i astudio yn y dosbarth ond yn anffodus, ni welodd llawer ohonynt ef yn y cyd-destun hwn ac felly ni wnaethant lwyddo i fanteisio ar y gwahoddiad.

Roedd llawer o'r ymgeiswyr a ddefnyddiodd deunydd ychwanegol yn rhoi disgrifiad syml o wybodaeth astudiaeth achos heb ei chymhwyso at gyd-destun y cwestiwn, a oedd yn amlwg iawn yn ymwneud â chymunedau cynaliadwy fel y mae Olwyn Egan yn eu cynrychioli. Mae'r gallu i ddefnyddio adnoddau i wneud penderfyniad fel hyn yn aml yn golygu bod angen i ymgeiswyr ddefnyddio eu sgiliau meddwl beirniadol ac eto, mae hwn yn dal i fod yn faes allweddol i'w wella yn y fanyleb hon. Fodd bynnag, roedd y cynllun marcio seiliedig ar fandiau ar gyfer y cwestiwn hwn yn dal i alluogi hyd yn oed yr ymgeiswyr gwannaf i ennill rhai marciau, fel y nodir gan y ffactor hygyrchedd o 0.43, ac ychydig iawn iawn o ymgeiswyr a oedd wedi rhoi cynnig ar y cwestiwn ond heb lwyddo i sgorio dim marciau.

Y broblem oedd nad oedd llawer o ymgeiswyr yn gallu llunio barn ddigon soffistigedig i ennill marciau'r bandiau uwch. Dylid ychwanegu hefyd, fodd bynnag, â mantais edrych yn ôl, y gallai adnoddau'r cwestiwn hwn fod wedi cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar draul un o'r ffotograffau i helpu ymgeiswyr i ystyried y safbwynt arall.

Mae elfen derfynol AA2 yn gofyn i'r ymgeiswyr ddadansoddi, ac roedd cwestiwn 1a(v) yn eu gwahodd i ddadansoddi tirffurfiau arfordirol oddi ar fap arolwg ordnans. Yn rhy aml, mae cwestiynau map ordnans yn profi amrywiaeth eithaf cul o sgiliau ac roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o dirffurfiau arfordirol a phrosesau tirffurfiau yn yr ardal a gynrychiolwyd gan y darn o'r map. Yn anffodus, mae ffactor hygyrchedd o 0.31 yn dangos bod y cwestiwn hwn yn rhy anodd i lawer iawn o ymgeiswyr a dewisodd lleiafrif sylweddol beidio â rhoi cynnig arno o gwbl; rhoddwyd atebion eithaf arwynebol a syml gan lawer o ymgeiswyr eraill nad oeddent yn cyfeirio at y tirffurfiau ar y map. Roedd eitemau blaenorol yn arwain i mewn i'r cwestiwn hwn yn cyfeirio ymgeiswyr yn glir iawn at y tafod tywod, ei duedd ac at broses drifft y glannau a oedd yn nodi bod y forlin wedi'i dominyddu gan gludiant a dyddodiad. Roedd yr ymgeiswyr a oedd wedi nodi bod gan y tafod tywod duedd de-orllewin i ogledd-ddwyrain yn gallu canfod cyfeiriad y prifwynt a drwy hynny, drifft y glannau gan gyfeirio at rôl yr afon yn cyfyngu ar y broses hon ac yn helpu i greu'r bachyn ar y tafod. Gallai rhai ymgeiswyr wedyn sylweddoli bod y tafod yn rhoi'r amddiffyniad i greu'r amodau egni isel y tu ôl iddo i ffurfio'r darn lletaf o'r traeth yng Nglan-y-Don a bod y traeth yn culhau'n raddol tuag at y dwyrain wrth i ddrifft y glannau fynd yn gryfach eto. Dadansoddi yw un o elfennau allweddol AA2 ac mae angen i ymgeiswyr allu dadansoddi gwybodaeth ddaeryddol ar amrywiaeth o wahanol fformatau, gan gynnwys mapiau yn ogystal â data rhifiadol, wrth gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn gwahanol gyd-destunau yn y byd go iawn. Er bod llawer o ymgeiswyr wedi gwneud ymdrech go iawn i ateb y cwestiwn hwn ac wedi cael marciau yn y band canol, dim ond ambell un oedd yn wirioneddol lwyddiannus a chyfrannodd hyn hefyd at y marc cymedrig isel am y cwestiwn cyfan ac at y gostyngiad bach yn y cymedr am y papur.

AA3 – Sgiliau a thechnegau i ymchwilio i faterion a chyfathrebu am y canfyddiadau

Cafodd y cwestiynau a oedd yn profi AA3 eu gwneud yn dda ar y cyfan ac roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gyfforddus â sgiliau darllen map sylfaenol yng nghwestiwn 1(a), eu gallu i ddisgrifio'r berthynas rhwng glawiad a lefel afon o'r hydrograff yng nghwestiwn 1b(ii) ac i gyfrifo canran sylfaenol yng nghwestiwn 2b(ii). Roedd nifer o ymgeiswyr heb ddangos eu gwaith cyfrifo.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Gwneud yn siŵr bod atebion AA1.1 ac AA1.2 yn cynnwys digon o fanylion i ennill yr holl farciau sydd ar gael. I ddangos dealltwriaeth yn AA1.2 bydd defnyddio cysylltiadau fel 'mae hyn oherwydd...' ac 'felly...' o gymorth yn hyn o beth.
- Gwellu sgiliau meddwl a'r gallu i ddadansoddi adnoddau i ffurfio barn gytbwys wrth ateb cwestiynau gwneud penderfyniadau.
- Gallu dadansoddi amrywiaeth o wybodaeth ddaeryddol, gan gynnwys mapiau arolwg ordnans i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth mewn cyd-destunau go iawn.
- Talu sylw i holl eiriad cwestiwn, yn ogystal â'r gair gorchymyn, i sicrhau bod yr ateb yn benodol ac yn y cyd-destun cywir.

DAEARYDDIAETH

TGAU

Haf 2019

3110N20-1 MATERION AMGYLCHEDDOL A DATBLYGIAD

Sylwadau Cyffredinol

Roedd arholi un amcan asesu i bob cwestiwn yn gweithio'n dda eleni, ac roedd yn glir bod ymgeiswyr wedi cael eu haddysgu i ddeall y gair gorchymyn cyn ateb y cwestiwn. Rhoddodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr ddisgrifiadau wrth ateb cwestiynau AA1.1 ac esboniadau wrth ateb cwestiynau AA1.2, er nad oedd y rhain bob amser yn ddigon manwl.

Roedd y papur yn hygyrch i ymgeiswyr o bob gallu, a dim ond nifer bach o gwestiynau na roddwyd cynnig arnynt. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau o ran tariff (1, 2, 3, 4, 6 ac 8 marc) i sicrhau bod yr ymgeiswyr llai galluog yn gallu rhoi cynnig ar bob un a bod y rhai â thariff uwch yn wahaniaethydd da i'r ymgeiswyr mwy galluog a thalentog. Ar achlysuron, nid oedd yr ymgeiswyr yn ymateb yn dda i ddefnyddio termau allweddol yng ngeiriad cwestiynau a dylai athrawon sicrhau eu bod yn tynnu sylw ymgeiswyr at y rhain.

Roedd y cwestiynau opsiwn yn rhoi canlyniadau cymaradwy i'r ddau ddewis. Yn yr un modd, roedd yr ymgeiswyr a safodd yr arholiad drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwneud tua'r un mor dda â'r rhai a safodd yr arholiad yn Saesneg, ac felly ni roddwyd mantais y naill ffordd na'r llall.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

AA1.1 – Arddangos gwybodaeth

Mae cwestiynau gwybodaeth AA1.1 yn werth 15% o gyfanswm pwysoliad yr asesiad. Profwyd yr AA hwn ar draws 5 cwestiwn eleni yn werth 1, 2 neu 4 marc. Ni atebwyd cwestiwn 1a(iv) yn dda. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu enwi o leiaf un nodwedd nodedig i lystyfiant mewn coedwig law drofannol ac roedd rhai'n gallu ymhelaethu i ennill yr ail farc. Roedd nifer o ymgeiswyr wedi disgrifio dwy haen wahanol o'r goedwig law fel dwy nodwedd nodedig, ond datblygiad pellach ar yr un nodwedd yw hyn ac felly rhoddwyd uchafswm o 2 farc am hyn.

Roedd cwestiwn 2a(v) hefyd yn gwestiwn 4 marc ac nid oedd hwn wedi'i ateb yn dda ychwaith. Roedd nifer sylweddol o ymgeiswyr naill ai ddim yn gwybod beth oedd isadeiledd neu'n anwybyddu'r elfen honno ar y cwestiwn, gan roi effeithiau cadarnhaol cyffredinol twristiaeth ar LIC/NIC yn lle hynny. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r holl dermau allweddol yn y fanyleb.

AA1.2 – Dangos dealltwriaeth ddaearyddol

Mae cwestiynau AA1.2 yn werth 25% o gyfanswm pwysoliad yr asesiad. Profwyd yr AA hwn ar draws 5 cwestiwn eleni yn werth 2, 4 neu 6 marc. Roedd diffyg penodoldeb o fewn atebion yn thema gyffredin ar draws y cwestiynau AA1.2 6 marc. Er enghraifft, mae Cwestiwn 2b(ii) yn gofyn am effaith twristiaeth clofan ar ddatblygiad. Roedd 18% o'r ymgeiswyr heb roi gynnig ar y cwestiwn hwn, a'r marc cymedrig a gafwyd oedd 1.9.

Arweiniodd hyn at ffactor hygyrchedd o 31 sy'n dangos bod ymgeiswyr wedi gweld y cwestiwn yn anodd.

Roedd llawer o ymgeiswyr wedi ei ateb mewn modd generig, naill ai heb gyfeirio at dwristiaeth clofan neu drwy roi effeithiau cyffredinol twristiaeth yn hytrach na'r effeithiau a achosir yn benodol gan dwristiaeth clofan.

Felly, roeddent wedi'u cyfyngu i farciau band 1. Roedd canran llai (llai na 5%) wedi ateb hwn yn dda iawn gan roi ymateb manwl penodol i glofan a sut roedd hyn yn effeithio ar ddatblygiad. Mae 'effeithiau twristiaeth clofan ar ddatblygiad' yn ofyniad clir yn y fanyleb ac felly mae'n rhywbeth y dylid ei addysgu yn y dosbarth.

Gwelwyd enghreifftiau da o gadwyn resymu yn yr atebion i gwestiwn 3a(iv) lle roedd yr ymgeiswyr yn esbonio pam mae nifer mawr o geiswyr lloches yn tarddu o Affrica Is-Sahara/Asia. Llwyddodd llawer o ymgeiswyr i gael marciau band 3 am ddim ond un neu ddau reswm wedi'u hesbonio'n llawn. Roedd yn braf iawn gweld hyn, a dylid annog ymgeiswyr i ymarfer hyn yn y dosbarth.

AA2 – Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae cwestiynau AA2 yn werth 35% o gyfanswm pwysoliad yr asesiad. Profwyd yr AA hwn ar draws 4 cwestiwn eleni yn werth 3, 6 neu 8 marc. Ni atebwyd y cwestiwn 3 marc (C1civ) yn dda iawn; roedd yr ymgeiswyr naill ai'n rhoi atebion generig iawn fel 'twristiaid' neu 'llygredd' yn hytrach na rhesymau penodol fel 'mae twristiaid yn cerdded ar y riff ac yn ei ddifrodi' neu enwi math penodol o lygredd. Fodd bynnag, roedd yn braf iawn gweld yr ymatebion i'r cwestiynau tariff uwch 8 marc. Rhoddwyd cynnig ar y cwestiynau hyn i gyd gan y mwyafrif o'r ymgeiswyr, a'r rhan fwyaf yn gallu ennill o leiaf y marciau ym mand 1. (Roedd y marc cyfartalog am y cwestiynau hyn ym mand 2.) Defnyddiwyd y deunyddiau adnoddau a ddarparwyd yn dda ac roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gallu cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynglŷn a materion yn y cyd-destun dan sylw. Roedd yn glir bod rhai ymgeiswyr wedi cael eu haddysgu i roi sylw i'r ddwy ochr i'r ddatl, gwneud penderfyniad a'i gyfiawnhau. Mae hyn yn arfer da a dylid gwneud mwy i'w annog! Llwyddodd yr ymgeiswyr i ddangos hyn yn y cwestiwn HS2 2c(ii) yn ogystal â'r cwestiwn olaf yn yr unedau opsiynau - 3b(ii) a 4b(ii). Atebwyd y cwestiynau estynedig 8 marc hyn yn gymharol dda, heb ddangos tuedd rhwng yr opsiynau ac roedd marc cymedrig y ddau o fewn band 2.

AA3 – Sgiliau a thechnegau i ymchwilio i faterion a chyfathrebu am y canfyddiadau

Mae cwestiynau AA3 Sgiliau yn werth 25% o gyfanswm pwysoliad yr asesiad. Profwyd yr AA hwn ar draws 12 cwestiwn eleni yn werth 1, 2 neu 3 marc. Ymatebodd yr ymgeiswyr yn dda iawn i'r cwestiynau hyn, gan gynnwys plotio a dehongli graffiau, cyfrifo amrediad a chanran, a dehongli, disgrifio ac addasu mapiau.

Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gallu ennill marciau am ddehongli graffiau hinsawdd, cydberthyniad a siartiau bar. Roedd yn glir bod y sgil hwn wedi cael ei ymarfer, a dylid ei annog. Llwyddodd mwyafrif yr ymgeiswyr i wneud y cyfrifiadau gofynnol, ond nid oedd rhai wedi cynnwys eu gwaith cyfrifo. O ganlyniad, roeddent yn colli 50% o'r marciau hyn gan nad oeddent wedi darllen gofynion y cwestiwn yn iawn. Roedd yr ymgeiswyr yn wannach wrth ateb y cwestiynau sgiliau mapiau nag wrth ateb y cwestiynau graffigol neu gyfrifo. Roedd cwestiynau 3a(ii) a 4a(ii) yn gofyn i'r ymgeiswyr ddisgrifio'r patrwm. Canolbwyntiodd llawer o ymgeiswyr ar enwi gwledydd unigol yn hytrach na disgrifio ble roedd y mwyafrif neu'r lleiaf o leoliadau neu ddefnyddio meintioli cymharol. Mae hyn yn sgil allweddol sy'n cael ei arholi'n aml ac felly dylid ei ymarfer mewn amrywiaeth o gyd-destunau a graddfeydd. Roedd cwestiynau 3a(iii) a 4a(iii) yn gofyn i'r ymgeiswyr awgrymu un ffordd o addasu'r map. Eto, atebwyd hwn yn wael iawn ac roedd y sgôr cymedrig o dan 1.

Canolbwyntiodd rhai ymgeiswyr ar ychwanegu gwybodaeth ychwanegol at y map, er nad dyna oedd y cwestiwn yn ei ofyn. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi cynnig addasiad dilys ond heb gael yr ail farc am esbonio pam byddai hyn wedi helpu i gyfleu'r wybodaeth yn gliriach. Mae dethol ac addasu amrywiaeth o sgiliau a thechnegau'n elfen ganolog i'r AA hwn a dylid rhoi sylw i hyn yn rheolaidd yn y dosbarth i hybu meddwl beirniadol.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r holl dermau allweddol yn y fanyleb oherwydd gellid eu defnyddio yng ngeiriad y cwestiwn.
- Dylai ymgeiswyr fod mor benodol â phosibl yn eu hatebion ac osgoi datganiadau cyffredinol, yn enwedig yn y cwestiynau AA1.2 ac AA2. Gallai defnyddio cysylltiadau fel 'felly...', 'mae hyn oherwydd...' ac 'o ganlyniad...' helpu ymgeiswyr i ddatblygu eu hatebion.
- Dylai ymgeiswyr ymarfer dehongli a dadansoddi mapiau a graffiau yn rheolaidd, a thrafod eu cyfyngiadau hefyd; awgrymu ffyrdd o'u gwella a/neu eu haddasu.

DAEARYDDIAETH

TGAU

Haf 2019

3110N30-1 YMHOLIAD GWAITH MAES

Sylwadau Cyffredinol

Hon oedd ail flwyddyn yr Asesiad Di-arholiad newydd Uned 3 ac yn sicr roedd tystiolaeth i ddangos bod staff, ac felly myfyrwyr, wedi ymateb i gyngor. Ar y cyfan, gweithiodd y papur yn dda, a gwnaeth bron bob ymgeisydd ateb pob cwestiwn – roedd y cyfraddau ymgeisio'n 98% neu'n uwch ar gyfer pob eitem.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

C.1 (a) AA1.2: 4 marc

Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu cyrraedd Band 1 o leiaf, ac roedd y marc cymedrig yn 1.8. Y prif ffactor a oedd yn atal ymgeiswyr rhag cyrraedd Band 2 oedd anallu i ddarllen y cwestiwn yn ofalus a sylwi ar y gwahaniaeth rhwng arolygon ansoddol a meintiol. Roedd gormod o ymgeiswyr yn ymateb i'r cwestiwn hwn drwy gyfeirio at wybodaeth feintiol fel cwestiynau am arolygon traffig neu gyfrif cerddwyr.

Llwyddodd ymgeiswyr gorau i gysylltu eu hatebion â materion penodol o'u gwaith maes, yn aml gan gynnwys enghreifftiau o'r hyn yr oeddent wedi'i wneud yn ystod y gwaith maes. Mae cyfeirio at wybodaeth benodol o'r ymchwiliad yn hollbwysig er mwyn rhoi marciau yn y bandiau uchaf.

Cyngor:

- Mae angen i ymgeiswyr gael dealltwriaeth glir o'r termau 'ansoddol' a 'meintiol' mewn perthynas â sut mae'r rhain yn dylanwadu ar natur casglu data ac agweddau pellach ar unrhyw ymchwiliad. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o dermau allweddol a geiriau gorchymyn yn parhau i atal rhai ymgeiswyr rhag cyflawni canlyniadau gwell.

(b) (i) AA3: 6 marc

Dylai cwestiwn sy'n gysylltiedig â lluniadu graff fod yn gyfle i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ragori. Fodd bynnag, roedd ansawdd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg a chafodd gormod farciau Band 1. Y marc cymedrig oedd 3.2. Yn aml, nid oedd digon o fanylder yn yr atebion ac felly cynhyrchwyd graffiau anghywir a/neu anghyflawn. Roedd hyn yn cynnwys lluniadu graffiau rheiddiol; ni ellid rhoi marciau llawn am y rhain gan fod yr echelin wedi'i lluniadu'n anghywir. Mewn llawer o achosion, darparwyd tabl o ddata a oedd yn dangos data meintiol yn hytrach na data ansoddol, gan arwain at graffiau i gynrychioli cyfrifon cerddwyr neu lifoedd traffig. Roedd rhai o'r rhain yn gywir, ond nid oeddent yn ateb y cwestiwn yn iawn.

Ar achlysuron, roedd ansawdd ac amrywiaeth y graffiau'n amrywio yn ôl y ganolfan neu'r grŵp addysgu. O ganlyniad, nid oedd ymgeiswyr yn cael eu helpu i gyrraedd y bandiau uchaf gan nad oeddent yn gyfarwydd â digon o dechnegau i ddewis y math mwyaf priodol.

Cafwyd enghreifftiau rhagorol lle atebodd yr ymgeiswyr y cwestiwn hwn yn dda. Roedd graffiau bar cyfansawdd a graffiau rheiddiol wedi'u gwneud yn dda, gan fodloni meini prawf Band 3.

Cyngor:

Mae lluniadu graffiau'n agwedd bwysig ar unrhyw astudiaeth ymchwiliol ac mae'n bwysig nodi'r pwyntiau canlynol i wella safonau ymhellach. Dylai ymgeiswyr:

- cynhyrchu tabl data sy'n hawdd i'r arholwr ei ddarllen. (Yn rhy aml, nid oedd tabl wedi'i gynnwys ac roedd hynny'n creu problemau o ran asesu graff cywir a chyflawn.) Dylai ymgeiswyr hefyd ond cynnwys data sy'n benodol i'r graff y maen nhw am ei greu
- dysgu am wahanol dechnegau graffigol a'u hasesu gan ddefnyddio dull SAC (*suitable, accurate, completed*/addas, manwl gywir a chyflawn) a dull SALT (*scale, axis, labels and title*/graddfa, echelinau, labeli a theitl).
- darparu allwedd i'w graffiau bar
- lluniadu'r graff yn y lle a ddyrannwyd yn y llyfryn ateb
- peidio â chyflwyno graffiau pan fo'n amlwg na chawsant eu gwneud yn yr amser asesu
- Mae'n rhaid i fapiau sylfaenol gyda graffiau gael eu dilysu gan yr athro/athrawes i ennill unrhyw farciau.

(ii) AA3: 4 marc

Llwyddodd llawer o ymgeiswyr i gynnig rhyw esboniad pam roedden nhw wedi dewis eu graff a chysylltu hyn â natur y data a gyflwynwyd yn y tabl. Fodd bynnag, ychydig iawn a gafodd farciau llawn am eu bod yn methu ymhelaethu a chysylltu'r graff neu'r map â'u data nhw a chynnig mwy na rheswm sylfaenol pam roedden nhw wedi dewis y dechneg. Arweiniodd hyn at farc cymedrig o 1.7.

Disgrifio'r dechneg cyflwyno data wnaeth rhai ymgeiswyr yn hytrach na rhoi rhesymau pam mai honno oedd y fwyaf addas a/neu pam nad oedd technegau eraill mor addas.

Cyngor:

- Rhaid i'r ymgeiswyr ddysgu manylion penodol am wahanol dechnegau graffigol, gan osgoi gosodiadau generig a syml iawn a allai fod yn berthnasol i unrhyw dechneg gyflwyno.
- Mae angen i ymgeiswyr ystyried pa mor addas ac effeithiol yw'r dechneg i'w data eu hunain. Er enghraifft, nododd ymgeiswyr a oedd wedi defnyddio siartiau bar eu bod yn ddefnyddiol i gyflwyno data o setiau mawr o ddata, ac i ddangos anomaleddau, er bod eu set o ddata yn fach a heb unrhyw anghysondebau.

(c) AA2: 8 marc

Yn yr ymatebion hyn, roedd llai o gamgymeriadau wrth gyfeirio at dechnegau meintiol yn hytrach nag ansoddol. Roedd yr atebion gorau yn gallu defnyddio gwybodaeth fanwl, benodol o'u hymchwiliad, gan ddisgrifio cryfderau a chyfyngiadau yn dda.

Roedd y gorchymyn 'gwerthuswch y technegau' yn ffactor gwahaniaethu allweddol yn y canlyniadau ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd o leiaf hanner yr ymgeiswyr yn troi at ddisgrifio beth roedd gwahanol graffiau'n ei ddangos am eu hymchwiliad, a bron yn ymddangos fel eu bod wedi'u copïo o ymateb gwerslyfr safonol, yn hytrach na gwerthuso cryfderau a gwendidau fel techneg. Mae hyn yn sicr yn ffactor yn y ffaith bod y marc cymedrig yn 3.5 allan o 8. Mae'n rhaid i werthusiad ddangos cydbwysedd hefyd. Roedd diffyg cyfeiriad clir at eu 'gwaith portffolio', ac roedd hyn yn gwahaniaethu'n dda.

Cyngor:

- Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddysgu gwerthuso technegau yn hytrach na dim ond eu disgrifio.
- Er mwyn i atebion gyrraedd y bandiau uwch mae angen cymhwyso'r gwerthusiad hwn i'w profiad gwaith maes gwirioneddol a dylai gynnwys cydbwysedd rhwng cryfderau a gwendidau. Mae'r cyfeiriad hwn at fanylion penodol yn allweddol i gyflawni marciau uwch.

C.2 (a) AA1.2: 4 marc

Y cymedr oedd 2 farc. Llwyddodd llawer o ymgeiswyr i ddisgrifio pam roedden nhw'n mynd i'r lleoliad dan sylw ond roedd hynny'n aml ar lefel sylfaenol. Roedd llawer o ymatebion yn canolbwyntio ar resymau pragmatig fel cost, bod yn agos at ysgol neu'r mannau parcio sydd ar gael, ond ni wnaeth llawer ymhelaethu ar y pwyntiau sylfaenol hyn. Disgrifiodd rhai ymgeiswyr eu lleoliad fel un unigryw neu nodedig heb esbonio pam roedd y ffactor hwn yn bwysig.

Cyngor:

- Mae angen i ymgeiswyr ddarllen y cwestiwn, a ofynnodd am ddau reswm.
- Dylai atebion bwysleisio manylion penodol sy'n gysylltiedig â'u hymchwiliad er mwyn cyfiawnhau eu dewis o leoliadau gwaith maes.

(b) AA2: 8 marc

Roedd dealltwriaeth o'r term dadansoddiad yn wael ar y cyfan, a'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn disgrifio pwyntiau data unigol yn hytrach na chanfod a dangos tueddiadau, patrymau a chysylltiadau. Disgrifiodd rhai ymgeiswyr y prif ganfyddiadau heb ddefnyddio tystiolaeth ategol. Roedd eraill yn disgrifio data pennawd heb nodi patrwm na thuedd.

Cafwyd rhai atebion da iawn i'r cwestiwn hwn, a'r ymgeiswyr yn dewis gwybodaeth yn ofalus o'u portffolio gwaith maes ac yn defnyddio dealltwriaeth benodol o weithgareddau gwaith maes i wneud cysylltiadau â chysyniadau a damcaniaethau daearyddol. Roedd y math hwn o ymateb yn gwthio'r marc cymedrig i 3.7.

Roedd rhai ymgeiswyr yn ei chael yn anodd cyfeirio at dystiolaeth o'u portffolio a beth roedd y data'n ei ddangos, ac roedd llai fyth yn defnyddio ffynonellau eilaidd i ategu eu casgliadau.

Cyngor:

- Mae angen i ymgeiswyr wella eu llythrennedd daearyddol. Yn aml, defnyddiwyd y termau 'patrymau' a 'thueddiadau' yn fras gan ymgeiswyr, a heb ystyr manwl.

(c) AA1.2: 6 marc

Cafwyd rhai atebion da iawn i'r cwestiwn hwn a'r ymgeiswyr yn cyfeirio'n dda at y setiau data cynradd ac eilaidd ac yn cynnig ymatebion penodol i gyd-fynd â'r astudiaeth yr oeddent wedi ymchwilio iddi.

Fodd bynnag, nid oedd rhai canolfannau wedi helpu'r ymgeiswyr drwy ddewis lleoliadau ac ardaloedd i ymchwilio iddynt a oedd yn ei gwneud yn anodd i'r ymgeiswyr ehangu ac ymhelaethu'n llawn yn eu casgliad.

Yn anffodus, nid oedd nifer sylweddol o atebion yr ymgeiswyr yn rhoi sylw i'r cwestiwn. Roeddent yn aml yn disgrifio eu prif ganfyddiadau ond yn cael marc mewn band is, oherwydd bod gan eu hesboniadau ddiffyg tystiolaeth o'u hymchwiliadau eu hunain i ategu eu canfyddiadau. Roedd llai fyth wedi defnyddio ffynonellau eilaidd i ategu eu casgliadau.

Yn yr un modd, roedd gormod o'r ymgeiswyr wedi methu â deall arwyddocâd y term 'casgliad' (y gallu i ddefnyddio tystiolaeth i ategu datganiad cyffredinol sy'n dod â gwahanol linellau ymholi at ei gilydd). Yn yr achosion hyn, roedd yr ymgeiswyr yn ysgrifennu rhestr o ddatganiadau syml, gyda neu heb dystiolaeth ategol heb esbonio eu canfyddiadau o gwbl nac awgrymu rheswm drostynt.

Cyngor:

- Mae'n ymddangos bod methiant ymgeiswyr i ddarllen cwestiynau a/neu i ddeall geiriau gorchymyn yn dal i fod yn broblem. Mae'n ymddangos bod rhai ymgeiswyr yn ansicr ynghylch beth yw casgliad.
- Mae ymgeiswyr yn methu â chyrraedd Band 3 oherwydd nad yw eu hatebion yn cynnwys digon o fanylion penodol ynglŷn â'u gwaith maes.

O ran gweinyddu Uned 3, mae angen i ganolfannau asesu ystyried y canlynol:

- Lle gofynnir iddynt gyflwyno tudalennau ychwanegol o'u portffolio, dylid ond atodi'r rhain os gallant ddarparu tystiolaeth ddefnyddiol i ategu ateb i gwestiwn penodol.
- Mae rhai canolfannau wedi rhoi mwy o anfantais i ymgeiswyr drwy drefnu a choladu'r llyfryn ateb yn wael, yn enwedig wrth gynnwys gwybodaeth ychwanegol (y tu hwnt i'r pum tudalen) o'u hymchwiliadau eu hunain.
- Ymgeiswyr nad ydynt yn dilyn cyfarwyddiadau ar y sgript arholiad.
- Rhaid i ymgeiswyr nodi dechrau pob ymateb newydd a rhifo'r ateb yn ofalus ac yn glir. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd ymgeiswyr yn penderfynu rhoi ymatebion nad ydynt yn dilyn yn iawn.
- Mae angen i ganolfannau roi sylw llawn i'r Amcanion Asesu yn yr asesiad hwn fel bod mwy o ffocws gan atebion, a'u bod yn osgoi disgrifio.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
Gwefan: www.cbac.co.uk